PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

E-lawlyfr 1

**SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL**

Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

**Adnodd 7**

# *Mudiadau Cymdeithasol 1: Nodweddion a Mathau*

## Canllaw i Athrawon

International Politics Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

## CANLLAW I ATHRAWON

Mae'r adnodd hwn ar nodweddion a mathau mudiadau cymdeithasol yn un o wyth sy'n rhan o ***E-lawlyfr 1: Syniadau Hanfodol i Ddeall Systemau Gwleidyddol***. Mae pob adnodd wedi'i deilwra i gynorthwyo'r sawl sy'n dysgu neu'n astudio Uned 2 ar fanyleb y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth'. Nid yw'r adnodd yn cwmpasu'r holl faterion yn y fanyleb ac amlinellir isod wybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar y fanyleb sy'n cael sylw yn yr adnodd hwn.

| TEITL YR ADNODD | MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR ADNODD |
|---|---|
| **Adnodd 7:<br>Mudiadau cymdeithasol 1:<br>Nodweddion a mathau** | **2.3.3: Mudiadau cymdeithasol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth**<br>**– Nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng carfanau pwyso a mudiadau cymdeithasol**<br>**– Aelodaeth a nodau mudiadau cymdeithasol;**<br>**– Natur fyd-eang rhai mudiadau cymdeithasol.**<br>**– Y mudiad i fenywod fel enghraifft o fudiadau cymdeithasol** |

Noder felly nad oes sylw i'r mudiad amgylcheddol, ond fe roddir sylw i'r mudiad hawliau sifil yn yr UDA. Mae cyswllt cryf rhwng Adnodd 7 ac 8 a'r ddau yn adeiladu ar ei gilydd, gyda mwy o sylw yn Adnodd 8 i ddulliau ac adnoddau mudiadau cymdeithasol, gan gynnwys defnyddio technolegau newydd a hefyd i'r dadleuon ynghylch effeithiolrwydd mudiadau cymdeithasol. Yn Adnodd 7, trafodir y nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau rhwng carfanau pwyso a mudiadau cymdeithasol ar ddiwedd yr adnodd, ar ôl cyflwyno materion allweddol am fudiadau cymdeithasol.

Bwriad y canllaw i athrawon yw tynnu sylw at rai materion allweddol yn ymwneud â'r pwnc. Cynigir hefyd amlinelliad o'r ymarferion sydd yn y llawlyfr gwaith.

## Mudiadau Cymdeithasol

Darpara'r adnodd hwn fan cychwyn i ddeall y rhan allweddol mae mudiadau cymdeithasol yn ei chwarae mewn democratiaethau cyfoes. Yn ei hanfod, mae'n diffinio mudiadau cymdeithasol, yn trafod eu prif nodweddion gan gynnwys eu haelodaeth a'u nodau ac yn amlinellu rhai o'r prif nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau rhwng carfanau pwyso a mudiadau cymdeithasol. Cyfrana felly at ddatblygu dealltwriaeth drylwyr o rôl, cwmpas a chysyniad mudiadau cymdeithasol.

### Diffinio Mudiadau Cymdeithasol

Dechreubwynt yr adnodd hwn yw diffinio mudiadau cymdeithasol fel 'ymdrech ar y cyd gan bobl gyffredin am gyfnod o amser, gyda rhyw elfen o drefniadaeth i ddefnyddio dulliau ansefydliadol er mwyn creu newid mewn cymdeithas. Eu bwriad yw herio awdurdodau, y rhai mewn grym, neu syniadau ac arferion diwylliannol.' Dyma ymdrech i gynnig diffiniad cryno sy'n eithaf eang ac sy'n cwmpasu'r ystod mudiadau cymdeithasol.

Mae'n bwysig nodi y bu tueddiad yn y gorffennol i wahaniaethu rhwng 'mudiadau cymdeithasol' a 'mudiadau cymdeithasol newydd'. Cysylltwyd y rhai blaenorol (e.e. mudiad llafur) gyda chanolbwyntio mwy ar les economaidd. Ystyriwyd bod y 'newydd' (e.e. mudiad heddwch, hawliau sifil a'r amgylchedd) yn adlewyrchu'r twf sylweddol yn nifer y mudiadau yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol gan roi mwy o sylw i faterion yn ymwneud â hawliau a hunaniaethau'r unigolyn. Rhoddwyd sylw i'r gwahaniaethau o ran amcanion, dulliau a strwythurau ayyb. Bellach, nid oes cymaint o sylw i'r gwahaniaethiad hwn ac mae nifer wedi cwestiynu pa mor ddilys ydoedd yn ymarferol. Yn yr adnodd hwn, trafodir mudiadau cymdeithasol mewn modd sy'n cyfuno'r ddau ac mae hyn yn cyd-fynd gyda Chanllaw Addysgu CBAC ar gyfer y fanyleb (t. 55): 'Mae'r cysyniad hwn yn cynnwys mudiadau cymdeithasol a mudiadau cymdeithasol newydd.'

**Aelodaeth a nodau mudiadau cymdeithasol**

Trafodir aelodaeth a nodau mudiadau cymdeithasol o dan eu prif nodweddion. Rhoddir sylw hefyd i drefniadaeth y mudiadau, gan gynnwys natur fyd-eang rhai mudiadau. Mae'r adnodd yn ceisio pwysleisio'r amrywiaeth sy'n bodoli ymysg mudiadau cymdeithasol o ran y prif nodweddion hyn, ac yn ceisio rhoi syniad o'r materion allweddol a'r ystod fewnol sy'n bodoli ymysg mudiadau cymdeithasol. Er nad oes ymgais i amlinellu sut mae natur mudiadau wedi esblygu dros amser (e.e. ers yr 1960au), mae rhai awgrymiadau o hyn yn y deunydd a drafodir a gall disgyblion ystyried hyn yn bellach wrth roi sylw i fudiadau cymdeithasol penodol, e.e. y mudiad i fenywod neu'r mudiad amgylcheddol.

O ran nodau, mae'n bwysig nodi bod cyfrannu at greu newid yn nodwedd ganolog, a taw gwireddu newid sy'n digwydd yn yr hir dymor yn aml yw eu nod. Fel rhan o hyn, mae'n bosib iawn y byddant yn ceisio gwireddu rhai amcanion mwy penodol drwy annog newid yn y pleidiau ac mewn polisi cyhoeddus neu ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae'r ddealltwriaeth hon o nodau mudiadau yn bwysig iawn gan ei bod hefyd yn cyfrannu at ddeall y gwahaniaethau rhyngddynt a charfanau pwyso, a bod goblygiadau o ran sut i asesu effeithiolrwydd mudiadau.

O ran natur fyd-eang rhai mudiadau, dylid nodi nad ffenomen newydd yw mudiadau sy'n gweithredu yn fyd-eang, fel mae'r deunydd am y mudiad i fenywod yn Llawlyfr Gwaith Adnodd 8 yn nodi. Fodd bynnag, fel eglurir, mae'r ffenomenon hon wedi dod yn fwy fwy amlwg yng nghyd-destun globaleiddio. Mae'r drafodaeth yn Adnodd 8 am bwysigrwydd technoleg i fudiadau cymdeithasol yn tynnu sylw at sut mae'r elfen honno hefyd yn hwyluso cysylltiadau ar draws gwledydd ymysg mudiadau.

Er mwyn enghreifftio mudiadau cymdeithasol, mae'r adnodd hwn yn trafod y mudiad hawliau sifil yn yr UDA gan amlinellu rhai o'i brif nodweddion. Darperir sail hefyd i ddechrau ystyried y mudiad i fenywod ble ceir cyfle i ymwneud yn fanylach gyda'r enghraifft hon yn Llawlyfr Gwaith Adnodd 8. Gellir diffinio ffeministiaeth sef syniad canolog i'r mudiad i fenywod fel yr amcan o herio a newid israddoldeb menywod i ddynion.

## Nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng carfanau pwyso a mudiadau cymdeithasol

Drwy gyfrwng y wybodaeth graidd a chwestiwn 7 yn y Llawlyfr Gwaith, cynigir cyfle i ymchwilio i'r nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau rhwng carfanau pwyso a mudiadau cymdeithasol. Mae'r wybodaeth hon hefyd yn ceisio pwysleisio taw tueddiadau a geir yma. Mae rhai gwahaniaethau pendant rhwng mudiadau cymdeithasol gan eu bod yn herio'r strwythur grym awdurdodol ble mae carfanau pwyso sydd yn chwarae rhan mwy canolog o fewn y strwythur gwleidyddol sefydliadol. Fodd bynnag, wrth edrych ar achosion ymarferol, dydi'r gwahaniaethau rhwng y ddau ddim bob amser mor eglur a phendant ac mae'n bwysig bod disgyblion yn dangos eu bod yn ymwybodol o hyn.

## Ymarferion yn y Llawlyfr Gwaith

Gan adlewyrchu natur yr adnodd hwn, mae'r Llawlyfr Gwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar roi cyfle i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o syniadau allweddol ac asesu arwyddocâd mudiadau cymdeithasol. Darperir un ymarfer sy'n gofyn am fwy o bwyso a mesur wrth i'r myfyrwyr wahaniaethu rhwng y nodweddion sydd fwyaf priodol i fudiadau cymdeithasol ac i garfanau pwyso ac awgrymir gwaith pellach annibynnol i'r myfyrwyr ar sail yr ymarfer hwn o ran datblygu strwythur traethawd ac ymchwil pellach i enghreifftiau ellid eu defnyddio i gadarnhau pwyntiau mewn asesiad o'r fath.